

CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Mai 2018 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorydd A. R. James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. S. Johnson, B. Jones, K. R. Jones, Mrs D. L. King, Ms J. McAlpine, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Ms V. Roberts, T. Thomas a Miss C. L. Williams.

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref
Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

[Yn absenoldeb y Caderydd, y Cynghorydd Rutherford, a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Mellor, cymerodd y Maer, y Cynghorydd James, y Gadair]

147. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddihweuriadau gan y Cynghorwyr J. Ball, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs P. M. Jones, B. Mellor ac A. J. Rutherford.

148. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU - EBRILL 2018

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn manylu atodlen o daliadau a wnaed.

Rhif Taleb	Enw'r Cyflenwr	Swm £	Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau
465	Shire Leasing	337.33	Taliad Prydles Chwarterol ar gyfer System Ffôn Avaya
466	BT	89.05	Rhentu Llinell
467	BT	340.03	Rhentu Llinell a Galwadau
468	Sage & Co	31.00	Gwasanaethau Cyflogres Ebrill 2018
470	HSBC	6.30	Taliadau Banc 17 Chwefror i 16eg Mawrth 2018
469	Neopost Limited	108.04	Cerdydd IJ25 ar gyfer y Peiriant Ffrancio
471	Cyngor Sir y Fflint	4,141.80	Cyfraniadau Pensiwn ac Ariannu Diffyg Mawrth 2018
472	HMRC	2,557.82	Didyniadau Cyflog Mawrth 2018
473	Staff Cyngor Tref y Rhyl	6,775.80	Cyflogau Staff Ebrill 2018
474	Gunsmoke Communications	1,440.00	Ffioedd Rheoli Digwyddiadau Mawrth 2018
475	Cyngor Sir Ddinbych	704.50	TANC Ffordd Wellington – Taliad 1 o 10
476	Siop Cyngor ar Fudd-daliadau	916.66	Swyddog Apeliadau Rhan-amser – Taliad 1 o 12
477	Cyngor ar Bopeth	2,000.00	Swyddog Effeithiolrwydd Ynni 17/18 – Taliad 1 o 4
	Cyfanswm Taliadau	19,448.33	

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad.

149. AWURDODI TALIADAU/YCHWANEGIADAU I'R RHESTR O GYFLENWYR CYMERADWY

Ymhellach i gofnod rhif 143 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15fed Mawrth 2017 ac yn unol â'r rheoliadau ariannol a fabwysiadwyd gan y Cyngor, cyflwynodd Clerc y Dref atodlen B (rhestr o daliadau afreolaidd i'w gwneud dros y mis i ddod) (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen).

Rhif Taleb	Enw cyflenwr	Disgrifiad o'r Gwasanaeth	Swm £
478	Conrad Office & Art	Papurach	333.60
479	Gunsmoke Communications	Ffi Cynllunio Digwyddiad Diwrnod Calan Mai y Maer	160.00
480	Samba Bangor – Batala	Perfformiadau yn Nigwyddiad Calan Mai y Maer 5ed Mai 2018	425.00
481	Gwasg Helygain	Tafenni a phosteri ar gyfer Diwrnod y Maer a Digwyddiad Seafest ym mis Mai 2018	277.00
482	NMWATC	Cinio i 2 gynrychiolydd ar 20fed Ebrill	32.00
483	Amazon	2 x Jwg thermos	50.14
484	Flying Colours Entertainment	Cimwch anferth ar gyfer Seafest 28/05/18	828.00
485	Gunsmoke Communications	Bwrdd Picnic a Chadeiriau i'w defnyddio mewn Digwyddiadau	33.94
486	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	2 x Docyn ar gyfer Digwyddiad Elusen 18 Mai 2018	44.00
487	A Little Magic	Peintiwyr Wynebau ar gyfer Diwrnod y Maer	100.00
Cyfanswm Taliadau			£2,283.68

[Awdurdodwyd Taliadau 478 i 482 a 487 fel Taliadau mewn Argyfwng ar ôl canslo cyfarfod y Cyngor Llawn a oedd i'w gynnal ar 18fed Ebrill 2018. Roedd angen gwneud y taliadau cyn y cyfarfod nesaf (Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol ar 2il Mai) i gydymffurfio â thelerau masnach / amodau trefnu]

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r atodlen i'w thalu a'u llofnodi gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd P. Prendegast.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

150. POLISI CRONFEYDD WRTH GEFN

Ymhellach i gofnod rhif 106 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7fed Chwefror 2018, cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dangos cronfeydd wrth gefn y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r polisi.

151. ADRODDIAD BUDDSODDIADAU 2017/18

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn diweddarau'r aelodau ar weithgareddau a

pherfformiad buddsoddiad y Cyngor Tref rhwng 1ag Ebrill 2017 a 31ain Mawrth 2018.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

152. CADEIRYDD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL – ADRODDIAD SICRWYDD 2017/28

Yn absenoldeb y Cynghorydd Rutherford, cyfeiriodd Clerc y Dref at adroddiad y Cynghorydd Rutherford (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dweud iddo alw heibio'r swyddfa yn ddiweddar a gwneud hap archwiliad o brosesau ariannol y Cyngor Tref, a'u bod yn foddhaol.

PENDERFYNWYD *derbyn yr adroddiad.*

153. PENODI CYNRYCHIOLYDD I GORFF ALLANOL – GRŴP LLYWIO A GWEITHREDU BID Y RHYL A PHRESTATYN - CAIS I ANNERCH Y CYNGOR

Adroddodd Clerc y Dref iddo dderbyn yr uchod (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gwahodd y Cyngor Tref i ystyried penodi cynrychiolydd.

Ychwanegodd Clerc y Dref bod y Cynghorydd T. Thomas wedi mynychu eu cyfarfod cyntaf ar 1af Mai gyda briff gwrandio fel mesur dros dro, a diolchodd iddo am hynny.

Adroddodd y Cynghorydd Thomnas bod rhyw saith neu wyth busnes yn bresennol gan mai dim ond detholiad bach a oedd wedi eu cysylltu ar hyn o bryd. Bwriad y BID oedd siarad gyda phob un o'r 548 o fusnesau lleol mewn amser. Oes y BID oedd pum mlynedd ac roedd ganddynt gyllideb o £250,000 i greu manteision/gwasanaethau ychwanegol ar gyfer yr ardal. Gobeithid y byddai 30% o'r busnesau lleol yn cyfranogi, a chymryd rhan mewn pleidlais a fwriadwyd ar gyfer mis Tachwedd.

Dywedodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine bod rhai busnesau yn teimlo eu bod wedi eu gadael allan gan nad oeddynt yng nghanol y dref.

Dywedodd y Cynghorydd y byddai pob busnes sy'n talu mwy na £5,000 mewn trethi busnes yn cael eu cysylltu ac y gallai busnesau llai sy'n talu 2% o'r gwerth trethiannol (rhyw £250 y flwyddyn ar gyfartaledd) ddewis ymuno.

Awgrymodd Clerc y Dref bod y pwyllgor yn derbyn cais BID i gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol cyn ystyried penodi cynrychiolydd.

PENDERFYNWYD *cymeradwyol bod BID yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor yn y dyfodol, ac yna byddai'r Cyngor Tref yn ystyried penodi cynrychiolydd i'r Grŵp Llywio a Gweithredu.*

154. POLISI CADW DOGFENNAU CYNGOR TREF Y RHYL

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddsbarthwyd gyda'r rhaglen) a pholisi drafft yn dilyn argymhelliad gan yr Is-bwyllgor Asesu Rig, mewn ymateb i argymhelliad archwiliwr mewnol y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD *cymeradwyo a mabwysiadu'r polisi.*

155. RHEOLIADAU CYFFREDINOL DIOGELU DATA (GDPR)

Adroddodd Clerc y Dref y byddai'r rheoliadau newydd yn dod i rym ddiwedd mis Mai, ac er eu bod yn frawychus braidd, gyda dirwyon arwyddocaol am beidio â chydymffurfio, roedd wedi derbyn cyngor ei bod, yn achos Cyngorau Tref y Chymuned, yn foddhaol medru dangos gwaith paratoi tuag at gydymdffurfio'n llawn ar ôl diwedd mis Mai.

Gofynnodd Clerc y Dref ei fod yn cael cymryd yr holl gamau gofynnol er mwyn paratoi Polisi Digoelu Data newydd drafft ar ôl cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r hyn roedd ei angen. Gallai hyn gynnwys penodi Swyddog Diogelu Data allanol, am bris.

PENDERFYNWYD cymeradwyo bod Clerc y Dref yn symud ymlaen gyda'r rheoliadau newydd gyda gwariant uchaf a ganiateir o £1,000.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

156. YSWIRIO WARDENIAID LLIFOGYDD

Cyflwynodd Clerc y Dref ei adroddiad (a ddisbarthwyd gyda'r rhaglen) yn dilyn ymholiad gan y Cyngorydd B. Blakeley yn gofyn os oedd Wardeniaid Llifogydd yn dod dan yswiriant y Cyngor Tref.

Cadarnhaodd Clerc y Dref nad oedd yswiriant y Cyngor Tref yn ymestyn i waith y wardeniaid ac ar ôl holi Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y mudiad arweiniol, cadarnhawyd nad oeddyn nhw chwaith.

Yn wyneb hyn, gofynnodd Clerc y Dref i'r saith cyngorydd a benodwyd fel Wardeniaid Llifogydd yn eu capasiti personol eu hunain, ystyried a hoffent barhau yn eu rôl o ystyried eu bod yn gwneud hynny ar eu perygl eu hunain ac y dylent hysbysu CNC yn unol â hynny.

PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a bod y Cyngor Tref yn esbonio'n ffurfiol nad yw'n penodi nac yn yswirio wardeniaid llifogydd a bod y rhai sy'n gwirfoddoli ar gyfer y rôl honno yn gwneud hynny ar eu risg personol eu huanin.

157. EITEMAU GWYBODAETH YR AELODAU

Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a Noson Sefydlu'r Maer

Ar ran y Swyddog Cymorth Dinesig a Gweinyddol, atgoffodd Clerc y Dref yr aelodau i ymateb yn brydlon i wahoddiad y Darpar Faer er mwyn caniatáu gwneud trefniadau mewn da bryd.

Ymweliad â Chanolfan Cyngor ar Bopeth

Dyweddodd Clerc y Dref mai dim ond ef a'r Cynghorydd J. Ball a oedd wedi mynychu'r ymweliad, a drefnwyd yn arbennig ar gyfer cynghorwyr tref, ar 30ain Ebrill, er gwaethaf y ffaith bod nifer o gynghorwyr wedi ymrwymo i fynd.

Apeliodd Clerc y Dref i'r cynghorwyr fynychu lle'r oeddynt wedi dweud y byddent yn gwneud hynny, neu o leiaf gadael iddo wybod os na fedrent, er mwyn osgoi annifyrrwch yn y dyfodol.

Dydd Calan y Maer

Adroddodd Clerc y Dref bod angen gwirfoddolwr neu ddau ychwanegol ar gyfer y digwyddiad y dydd Sadwrn hwn ogerwydd bod dau gynghorydd nad oeddynt nawr yn medru dod.

Dyweddodd y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine y byddai ar gael i helpu o 12pm ymlaen.

158. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.

159. Y SEFYDLIAD – DYFARNIAD CYFLOG COSTAU BYW

Hysbysodd Clerc y Dref y cyfarfod o'r cytundeb cyflog 2018 a 2% o gynnydd mewn cyflog ar gyfer staff Cyngor Tref, a bod cymeradwyaeth ffurfiol i weithredu hyn wedi ei gyllunio ac wedi ei ddyrannu yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dyfarniad cyflog yn ffurfiol.

PENDERFYNWYD YMHELLACH atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.

160. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Ymhellach i gofnod rhif 79 cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Clerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

161. TERFYNU'R CYFARFOD

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill, datganodd y Cadeirydd bod y cyfarfod ar ben.

Cadeirydd:.....

Dyddiad: